Ar ddechrau cyfnod newydd yn addysg eich plentyn, hoffwn estyn **CROESO** cynnes i chi gyd i Ysgol Uwchradd Bodedern. Rydym yn ymwybodol fel ysgol y gall y cyfnod pontio yma rhwng addysg Gynradd ac Uwchradd fod yn anodd, i chithau hefyd fel rhieni, yn ogystal â'r disgyblion. Ga'i eich hatgoffa mai tiwtor dosbarth eich plentyn yw'r cyswllt cyntaf i chi os am drafod unrhywbeth am eich plentyn neu'r ysgol - naill ai drwy nodyn yn y llyfr cyswllt neu alwad ffôn. Drwy gydweithio gallwn sicrhau perthynas hapus rhwng yr ysgol a'r cartref yn ystod cyfnod eich plentyn yn Ysgol Uwchradd Bodedern.

*I would like to extend a warm **WELCOME** to you all to Ysgol Uwchradd Bodedern at a new phase in your child's education. As a school we are aware that this transition period between Primary and Secondary education can be equally as difficult a time for you, as parents, as it is for the pupils. May I take this opportunity to remind you that the first point of contact with the school should be your child's form tutor - either by writing a note in the Communication Book or by telephone. By working together as a team we can ensure a happy relationship between the home and school during your child's education at Ysgol Uwchradd Bodedern.*

Pennaeth

DYDDIADUR BL7 / *YR7 DIARY*

16/09/13:	Llun Ysgol Gyfan / *School picture*
15/10/13:	Noson Agored 5-7yh / *Open Evening 5-7pm*
16/10/13:	HMS - Dim ysgol/ *No school*
17/10/13:	Lluniau unigol BL7 / *YR7 Individual Photos*
24+25/10/13:	Dewch i Rocio (Sioe Ysgol) / *We Will Rock You (School Production)*
9/12/13:	Ffair Aeaf a Disgo / *Christmas Fayre and Disco*
21/02/14:	HMS - Dim ysgol/ *No school*
05/05/14:	Calan Mai / *May Day*
06/05/14:	Noson Rhieni BL7 / *YR7 Parents Evening*
02+03/06/14:	Arholiadau Mewnol BL7 / *YR7 Internal Examinations*
24-27/06/14:	Wythnos Sgiliau + Glanllyn / *Skills Week + Glanllyn*

Bydd mwy o wybodaeth ynglyn â'r gweithgareddau yn cael ei ddosbarthu yn achlysurol.

Further information on the activies will be shared periodically.

ATGOFFA

PRESENOLDEB: MAE PRESENOLDEB DYDDIOL YN YR YSGOL YN ALLWEDDOL OS AM SICRHAU LLWYDDIANT. Eleni cawsom ein canlyniadau TGAU gorau erioed gyda'r disgyblion a oedd â phresenoldeb uchel yn serennu.

DIOGELWCH: Ni chaniateir ffôn lôn, i– pod nac unrhyw offer electronig yn yr ysgol. Mewn argyfwng caniateir defnyddio ffôn yr ysgol.

GWISG YSGOL: Manteisir ar y cyfle i'ch atgoffa:

- Ni chaniateir sgidiau canfas/ trainers/ sodlau mwy na 4cm. Dylai esgidiau fod yn hollol blaen lledr du/ lledr yr olwg
- Cot ddu/ glas tywyll blaen a dim 'hwdis'
- Angen bag ysgol addas i gario offer, o liw du/ glas tywyll
- Dim crys polo

A REMINDER

ATTENDANCE: *DAILY ATTENDANCE AT SCHOOL IS KEY TO ENSURING SUCCESS. This summer saw the school achieve its best ever GCSE results with the pupils who had a high attendance percentage achieving the best results.*

SAFETY: *No mobile phones, I-pods and any other electronic equipment are allowed in school. In an emergency pupils may use the school phone.*

SCHOOL UNIFORM: *May we take advantage of this opportunity to remind you:*

- *That we do not allow canvas shoes/ trainers/ heels higher than 4cm. Shoes should be plain black leather/ faux leather.*
- *Plain black / navy coats and no 'hoodies'.*
- *A suitable school bag to carry equipment, in black/ navy.*
- *No polo shirts.*

Ysgol Uwchradd Bodedern

Pennaeth: Annwen Morgan

Dirprwyon: Irfon Morris
Catrin Jones Hughes

Croeso i Fl7

Medi 2013

Bro Alaw
Bodedern
Ynys Môn
LL65 3SU

Ffôn: 01407 741000
Ffacs: 01407 742343
pennaeth@bodedern.ynysmon.sch.uk

Ysgol Uwchradd

Bodedern



Diogelwch y We / Internet Safety

Sut allwch chi helpu/dysgu eich plentyn i fod yn fwy diogel wrth ddefnyddio'r we a sut i ddefnyddio'r we yn briodol:

- Sicrhewch nad yw eich plentyn yn treulio'u hamser i gyd ar y cyfrifiadur. Pobl, nid cyfrifiaduron, a ddylai fod yn ffrind gorau iddynt.
- Cadwch lygad ar beth yw defnydd eich plentyn chi o'r we. Pa wefannau y mae nhw'n eu defnyddio?
- Dysgwch nhw pa fath o wybodaeth sy'n ddiogel i'w rhannu ar lein a pha wybodaeth i'w gadw'n gyfrinachol.
- Dysgwch sut i osod y "Parental Controls" ar eich cyfrifiadur.

Here are a few tips to keep your children safe while they are online:

- *Make sure your child does not spend all of their time on the computer. People, not computers, should be their best friends and companions.*
- *Watch your children when they're online and see where they go.*
- *Teach them what information they can share with others online and what they can't.*
- *Learn how to set the parental controls on your computer.*

FACEBOOK

Os oes gennych unrhyw achos i gwyno am ddefnydd rhywun o 'Facebook' e.e. seibrfwlio, dylid dilyn y drefn cwyno isod:

1. Gwneud cwyn i Facebook
2. Cysylltu â'r awdurdodau e.e. yr heddlu

Should you need to make a complaint about another person on their use of Facebook e.g. cyberbullying you should do the following:

1. *Report the problem to Facebook*
2. *Contact the authorities eg. the police*

Nid oes gan ddisgyblion fynediad i unrhyw wefannau cymdeithasol fel 'Facebook' drwy'r we yn yr ysgol. Caiff defnydd pawb o'r we yn yr ysgol ei fonitro'n ofalus.

Pupils do not have internet access to any social media websites like 'Facebook' while at school. All internet access and use is monitored closely within the school.

Mae mwy o wybodaeth i chi yn Llyfr Cyswllt eich plentyn e.e. Côd ymddygiad yr ysgol; Côd teithio; Cynllyn yr Ysgol Iach
Further information is available to you in your child's Communication Book e.g. Behaviour Code; Travel Code; Healthy School Scheme

Welsh Network of Healthy School Schemes
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

5x60 Ewch gyda'r lli Get with it

ACTIVE MARC 2011-14 CYMRU

Hwb

Offer

Mae'n bwysig bod yr offer a'r llyfrau canlynol gan y disgyblion **bob dydd**: Cas Pensiliau; Beiro/Pin Ysgrifennu; Pensil; Pren Mesur; Miniwr; Rhwbiwr; Offer ar gyfer pynciau penodol e.e. cyfrifiannell, pensiliau lliw.
Llyfrau Angenrheidiol: Llyfr Cyswllt; Llyfr bras a Llyfr darllen penodol.

Equipment

*It is important that the pupils have the following items of equipment and books with them in school **every day**:*
Pencil Case; Biro/Fountain Pen; Pencil; Ruler; Sharpener; Rubber; Equipment for certain subject e.g. Calculator; coloured pencils.
Necessary Books: Communication Book; Rough book/Jotter; Personal Reading Book.

Gwaith Cartref

Mae Gwaith Cartref yn rhan bwysig o ddatblygiad addysgol pob disgybl gan ei fod yn dysgu disgyblion sut i astudio a dysgu'n annibynnol y tu allan i wersi. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plant yn cael y gefnogaeth orau posib trwy:

- bwysleisio statws gwaith cartref
- annog eich plentyn i gwblhau tasgau mewn da bryd ar ôl cyrraedd adref o'r ysgol.
- Sicrhau bod man tawel ar gael i weithio gyda bwrdd, golau da a thawelwch o swn teledu, cerddoriaeth, siarad ayyb
- sicrhau bod eich plentyn yn darllen yn rheolaidd
- sicrhau bod eich plentyn yn gwirio a dysgu cywiriadau pynciol yn rheolaidd
- arwyddo'r llyfr cyswllt yn rheolaidd ar ôl gwirio bod eich plentyn wedi cwblhau'r gwaith cartref i'r safon uchaf posib.

Homework

It is an important aspect of pupils' personal development as it teaches pupils how to study independently. We therefore kindly ask you to give your children your full support by:

- *emphasising the importance of homework*
- *encouraging your child to complete homework within a reasonable time of arriving home from school*
- *ensuring there is a suitable work area available to them, with a well lit table/desk in a quiet area, away from distractions such as the TV, music, talking etc.*
- *encourage your child to read regularly*
- *ensure that you child corrects errors and learns subject vocabulary/corrections regularly*
- *signing the communication book regularly after checking that your child has completed homework to the best possible standard*